# Cefnogi anghenion cysur corfforol unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi anghenion cysur corfforol unigolion. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion i fynd i'r afael â'r boen neu'r anghysur maen nhw'n ei brofi a helpu i ddarparu amodau sy'n sicrhau cysur ac yn hwyluso gorffwys effeithiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi anghenion cysur corfforol unigolion
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi ffyrdd o reoli eu poen neu anghysur
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi eu dewisiadau a'u hanghenion o ran cymorth fel bod modd iddynt orffwys yn gysurus
4. cefnogi unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, y cymorth neu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu cysur corfforol
5. annog unigolion i roi gwybod pan fyddant yn profi poen neu anghysur
6. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddefnyddio dulliau hunangymorth i reoli poen neu anghysur
7. cefnogi unigolion i ddod o hyd i ystumiau'r corff sy'n addas ac yn gysurus ar gyfer gorffwys, yn unol â'u dewisiadau a'u hanghenion
8. sicrhau bod amgylcheddau'n addas i unigolion orffwys yn gysurus
9. sicrhau bod eich gweithredoedd chi a gweithredoedd pobl eraill yn hybu amodau cysurus a thawel
10. monitro unigolion i nodi newidiadau o ran eu poen neu anghysur
11. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer anghenion unigolion o ran cysur corfforol
12. myfyrio, gydag adborth gan eraill ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi anghenion cysur corfforol unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. effaith poen neu anghysur ar unigolion
2. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i reoli poen neu anghysur
3. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion â'u hanghenion o ran cysur corfforol
4. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth reoli poen neu anghysur
5. y mathau o wybodaeth, cymorth ac adnoddau a allai helpu unigolion â'u hanghenion o ran cysur corfforol, a sut i gael gafael arnynt
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar reoli poen neu anghysur
7. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydolrwydd ar reoli poen neu anghysur
8. y mathau o gyfarpar, adnoddau dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi unigolion â'u hanghenion o ran cysur corfforol, a sut i asesu pa mor addas ydynt
9. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar eu hanghenion o ran cysur corfforol a pha gamau i'w cymryd
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gynorthwyo unigolion â'u hanghenion o ran cysur corfforol
11. sut mae poen, anghysur a gorffwys yn gallu effeithio ar ei gilydd
12. gwahanol ystumiau'r corff sy'n addas i orffwys yn gysurus a ffactorau a allai effeithio ar ystumiau'r corff
13. agweddau ar yr amgylchedd a allai effeithio ar amodau tawel
14. sut y gallai poen ac anghysur unigolion effeithio ar bobl eraill
15. pam y dylid trosglwyddo ceisiadau am feddyginiaeth lleddfu poen ychwanegol neu unrhyw bryderon ar unwaith
16. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi ag anghenion unigolion o ran cysur corfforol
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi ag anghenion unigolion o ran cysur corfforol
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion â'u hanghenion o ran cysur corfforol
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion â'u hanghenion o ran cysur corfforol
20. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio

wrth gefnogi unigolion â’u hanghenion o ran cysur corfforol, a sut i fynd i'r afael â hyn

21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion â’u hanghenion o ran cysur corfforol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD212

Cefnogi anghenion cysur corfforol unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD212 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cysur corfforol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |